Ein diolch diffuant i'r swyddogion a'r pwyllgor blaenorol am eu gwaith trylwyr yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio. Derbynier Mr. W. Howells, Mrs C. Williams, Mrs F. Foley, Mrs J. Harding a Mrs C. Wilkins ddiolch y staff a'r rhieni am eu cefnogaeth.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol ar Ddydd Gwener, Hydref 13eg a braf oedd gweld cynifer o rieni yn bresennol. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan Mr Martin Davies, Capel Bangor a thrwy gyfrwng darlleniad, cân a gweddi dangosodd y plant hwythau yr angen am helpu eraill llai ffodus na hwynt. Offrymwyd y weddi gan Ficer y Plwyf, y Parch D. Francis. Gwnaed casgliad yn ystod y gwasanaeth tuag at anffodusion gwledydd y Trydydd Byd.